# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 26ain o Fehefin 2017 am 8pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Peter Parker, Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Simon Jones

Rhoddwyd gair o groeso gan y Cadeirydd i un aelod o'r cyhoedd oedd yn bresennol.

2. Datgan diddordeb: Cynghorydd Arwel Pierce - eitem 7

3. Derbyn cofnodion 15 Mai 2017

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig ar Cynghorydd Alan H. Jones yn eilio'r cynnig.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101548 | £166.64 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101549 | £41.60 |
| Y Ganolfan | Llogi ystafell | 101550 | £12.00 |
| Cyngor Gwynedd | Toiled Cyhoeddus | 101551 | £2,000 |
| J Roberts | Archwiliad Mewnol | 101552 | £60.00 |
| A H Jones | Trydan | 101553 | £40.00 |
| Jones & Jones | Cae/Hysbysfwrdd | 101554 | £1,711.87 |
| Jones & Jones | Llwybrau/Pentref | 101555 | £502.20 |

**PENDERFYNIAD:**
I dalu'r anfonebau uchod.
I gysylltu gyda Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd er mwyn hysbysu bod gor-dyfiant o gyfeiriad Tyn Llwyn Hen tuag at Rheilffordd Talyllyn.
I gysylltu gyda contractwr y Cyngor er mwyn gofyn iddo dorri'r llwybr ger y giât mochyn cyntaf ger Pont Matthew.

5. Datganiadau Cyfrifyddu 2016/17:

**PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2016/17, gyda swm asedau yn cynyddu i £10,000 oherwydd offer newydd yn y Cae Chwarae a ddylid wedi ei gynnwys yng nghyfrifon 2015/16.

6. Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2016/17:

**PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2016/17.

7. Cais Ariannol - Dail Dysynni:

Bu i'r Cynghorydd Arwel Pierce ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a gadawodd yr ystafell.

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £100, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig, a'r Cynghorydd Peter Parker yn eilio.

Bu i'r Cynghorydd Arwel Pierce ddychwelyd i'r cyfarfod.

8. Datgan seddi gwag a'r bwriad o gyfethol Cynghorwyr:

**PENDERFYNIAD:** I ddatgan seddi gwag, gyda hysbysiad i'w roi ar hysbysfwrdd y pentref a 11eg o Fedi 2017 fel dyddiad cau i dderbyn ceisiadau.

9. Y Ddol - cais i wella arwyddion ffyrdd:

Adroddwyd bod trigolion lleol yn gofyn am arwyddion ffyrdd gan bod problemau derbyn parseli.

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gydag Uned Enwi Strydoedd, Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn am arweiniad. Yn lleol, defnyddir yr enw Ffordd yr Ysgol ar y ffordd sydd rhwng y B4405 a'r A493 ond nid oes enw swyddogol nac arwydd.

10. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd - Rhaglen Waith Mehefin 2017:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed torri gwair.

11. Dyfynbris - gosod tarmac i greu man parcio ger y Pafiliwn:

Derbyniwyd dyfynbris gan gwmni Y Gelli.

**PENDERFYNIAD:** I adael y dyfynbris ar y bwrdd.

12. Cae Chwarae - gosod mast teleffon:

Adroddwyd bod cwmni yn awyddus i osod mast teleffon ar ddarn o'r cae chwarae sydd ddim yn cael defnydd.

**PENDERFYNIAD:** I adael y mater nes bod cynnig ffurfiol yn cael ei dderbyn.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:
-Pafiliwn angen ei lanhau
-offer yn iawn
-ffiniau yn iawn

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth uchod.
I gynnig £100 yn rodd i Bwyllgor Carnifal Bryncrug er mwyn nodi achlysur hanner canmlwyddiant y Carnifal.
I atgoffa contractwr torri gwair bod angen torri a casglu'r gwair cyn y carnifal.
I atgoffa Clwb Pêl-droed o'r angen i lanhau'r Pafiliwn cyn y carnifal. Pe na fyddai'r Clwb Pêl-droed yn medru glanhau cyn y carnifal, i gysylltu gyda Gwenan Ellis er mwyn gofyn iddi lanhau toiledau merched, dynion a'r anabl.
I dderbyn cyfraniad ariannol gan grŵp lleol er mwyn prynu offer chwarae newydd i'r cae chwarae, gan brynu tŷ pren am £1,940.00.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd bod y Cynghorydd Bethan Lawton wedi mynychu cyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn Aberdyfi. Yr eitemau dan sylw oedd ymgynghoriad fydd ar y gweill yn fuan ar y Cynllun Datblygu Lleol Eryri a chynllun gwirfoddol ble mae busnesau yn codi ffi neu dreth ychwanegol ar dwristiaid.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno argymhelliad ynglŷn â newid ffiniau wardiau'r Sir er mwyn lleihau niferoedd o Gynghorwyr, gan symud o 75 i 68. Byddai Bryncrug yn parhau fel ardal wledig ond hefyd yn cynnwys Llanegryn.

Adroddwyd bod gwartheg ar lwybr cyhoeddus y tu ôl i Dolithel yn ymosod ar gerddwyr sydd ddim yn cerdded cŵn.

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir.
I gysylltu gyda Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn am arweiniad parthed anifeiliaid sydd yn ymosod ar gerddwyr.

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd syniad unigolion lleol i greu siop gymunedol yn y pentref, unai yn y Ganolfan neu yn Siop y Bont.

**PENDERFYNIAD:** I adael y mater ar y bwrdd nes bydd rhagor o fanylion i law.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 9:35pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................